PWYLLGOR CYMRU Y GWASANAETH CYFREITHIOL CYMUNEDOL (CLS)

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2007
yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd.

Presennolt: Tom Jones, Comisiynydd Cymru, LSC (Cadeirydd)
Paul Newell, Pennaeth Polisi Sifil, LSC
Nick Bowment, Age Concern Cymru
JJ Costello, Shelter Cymru (Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol CLS)
Celia Davies, Canolfan Cyngor Bro Ddyfi
Simon Ellington, CAB Caerffili
Tana Hall, CGGC
Phil Jew, Advice UK
Barbara Kerridge, Canolfan Cynghori Glanyrafon
Ann Lewis, Cynghrair Gwasanaethau Cynghori
Lowri Morgan, Cymdeithas y Gyfraith Cymru
Roy Morgan, Morgans Cyfreithwyr
Kay Powell, Cymdeithas y Gyfraith Cymru
Jenny Simmons, CAB Castell Nedd
Susan Smith, Fforwm Cenedlaethol CLS, Ysgrifennydd
Fran Targett, Cyngor Ar Bopeth Cymru
Kim Walsh, Canolfan Cynghori Speakeasy
Cemlyn Williams, CAB Gwynedd & De Ynys Môn
Tiana Williams, Datblygydd Polisi Cymru, LSC

Ynghyd â: Elaine Bennion, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol, Cofnodion
Emma Rouse, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Ymddiheuriadau: Julie Burton, Julie Burton Law
Mark Powell, Huw James Solicitors

1.	**Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Chroeso** Estynnodd y Cadeirydd groeso i Gadeirydd Fforwm Cenedlaethol CLS a chynrychiolwyr sefydliadau darparydd i'r cyfarfod.	
2.	**Ble'r ydym arni nawr?** Rhoddodd y Cadeirydd gefndir ar ffurfio Pwyllgor CLS yng Nghymru a nodwyd y dylid cylchredeg y Cylch Gorchwyl i aelodau Fforwm gan fod y Pwyllgor bellach wedi eu cymeradwyo. Gwnaed sylw am bryder darparwyr na chafodd eu sylwadau ar yr ymgynghoriad eu hystyried oherwydd iddynt ymateb drwy ddweud fod y Pwyllgor angen cynrychiolaeth darparwyr. Atebodd y Cadeirydd drwy ddweud nad yw canlyniadau'r ymgynghoriad wedi eu cyhoeddi cyd yma ac y cyhoeddir ymateb ar y cyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr haf.	**EB**

	Nodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor y gwahoddwyd CGGC i ymuno er mwyn cael cynrychiolaeth cleientiaid ar y Pwyllgor a chytunwyd hefyd, yn amodol ar gymeradwyaeth gan aelodau absennol, y gwahoddid Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol y CLS i ymuno â'r Pwyllgor hefyd. Fodd bynnag, pe bai'r Pwyllgor i drafod eitemau ar yr agenda a fedrai efallai y ceid gwrthdaro diddordeb, yna byddai angen i Gadeirydd Fforwm Cenedlaethol y CLS gytuno i fod yn absennol o'r eitem honno. Croesawodd cynrychiolwyr darparwyr y newyddion hyn ac anogwyd pob aelod i ddod ag eitemau i'r agenda. Tanlinellwyd eto fod gwaith y Pwyllgor yn ehangach na dim ond cymorth cyfreithiol. Cafwyd trafodaeth i ddilyn am y cyn Fforwm Cenedlaethol yn cael eu llywio gan bartneriaethau lleol a gofynnwyd os byddai'r Pwyllgor newydd yn mynd i fod yn gulach drwy ddim ond edrych ar CLAC a CLAN. Nodwyd y byddai briff y Pwyllgor mewn gwirionedd yn ehangach na'r Pwyllgor blaenorol gan y bydd yn siarad gyda chyllidwyr eraill. Mae'n fwriad gan y Pwyllgor i fod ar 2 lefel, siarad â phobl yn lleol a thrafod materion gyda Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan a thrwy hynny ddatblygu gwell perthynas rhwng cyllidwyr a darparwyr. Dywedwyd y dylai'r Pwyllgor fod yn edrych ar fwy na dim ond cyngor, er enghraifft polisi sifil a datblygiad a ddaw o fewn cwmpas cyllidwyr eraill. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor yn medru comisiynu ymchwil ar y cyd a chronni adnoddau i gynhyrchu ystadegau ar y cyd. Bydd hefyd yn anelu i drefnu cynhadledd flynyddol a chynhyrchu adroddiad blynyddol. Bydd crynodeb o gofnodion y Pwyllgor hefyd ar gael i rai heb fod yn aelodau eu gweld. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor hefyd drefnu digwyddiadau ymgynghori. Mynegwyd pryder am CGGC yn cynrychioli cleientiaid a nodwyd mai'r bwriad yw i CGGC fod yn hwylusydd ac y byddant hefyd yn medru cael mynediad i rai heb fod yn ddefnyddwyr gan ei bod yn bwysig cael y cyfuniad cywir o ddefnyddwyr a rhai heb fod yn ddefnyddwyr. Holwyd os byddai unrhyw adnoddau i hwyluso'r Fforwm CLS. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n hapus i gefnogi unrhyw gynigion am gyllid ar gyfer hyn ond nad oedd unrhyw adnoddau ar gael gan yr LSC fel yn flaenorol. Awgrymwyd y medrid dod â hyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor iddynt edrych ar ffrydiau cyllid posibl. **Cam gweithredu – cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.** Ar y pwynt hwn daethpwyd â rhan o eitem 4 ymlaen.	**Pawb**
3.	**CINIO**	
4.	**Caffael gwasanaethau lles cymdeithasol a chyfraith deuluol o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol** Rhoddodd Paul Newell gyflwyniad ar ddatblygu gwasanaethau lles cymdeithasol a chyfraith teulu wedi'u hintegreiddio a gomisiynir ar y cyd (gelwir hefyd yn CLAC	

	a CLAN). Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar amcanion allweddol: • Comisiynu ar y cyd • Amrediad llawn o bum categori lles cymdeithasol ynghyd â chyfraith teulu • Amrediad llawn o wasanaethau o gyngor cyffredinol i gynrychiolaeth yn y llys • Cyllideb cymorth cyfreithiol sefydlog fesul ardal caffael • Manyleb gwasanaeth penodol ar gyfer pob ardal caffael • Un contract fesul ardal – yn y pen draw yn dilyn tendro gwerth gorau Cafwyd hefyd ddiweddariad cyffredinol ar sefydlu canolfan yn Gateshead a rhwydwaith yng Nghernyw a hefyd amlinelliad o'r broses ac amserlenni ar gyfer ymestyn allan. Roedd hefyd drafodaeth gyffredinol ar nifer o feysydd. Mae llawer o agweddau o feddwl polisi wedi datblygu errs cyhoeddi Strategaeth y CLS ym mis Mawrth 2006 ac adlewyrchir hyn yng nghyhoeddiad arfaethedig "Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru" a phapur polisi ar "Cyrchu Gwasanaethau Lles Cymdeithasol a Gwasanaethau Cyfraith Teulu". **Cam gweithredu: Pob aelod pwyllgor i dderbyn copi o'r ddau bapur.**	
5	**Cyflwyniad ar rôl Gwasanaethau Cyngor Cyfreithiol mewn Llwybrau Troseddwyr** Nodwyd y lluniwyd strategaeth ar uno yng Nghymru ac mae'r camau gweithredu yn y strategaeth yn trin 7 llwybr ymyriad: • Llety • Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth • Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Camddefnyddio Sylweddau • Cyllid, Budd-daliadau a Dyled • Plant a Theuluoedd • Agweddau, Meddwl ac Ymddygiad Cynhyrchwyd Cynllun Comisiynu ac mae gwasanaethau yn cael eu comisiynu ar hyn o bryd gan ddarparwyr ar gyfer y 7 llwybr ymyriad. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan Earl Smith earl.smith@justice.gov.uk	
6	**Unrhyw fater arall** Nodwyd y bydd papur Ymgynghori Cefnogaeth Arbenigol o fewn yr ychydig wythnosau nesaf ac y bydd ganddo faterion penodol am Gymru. Yn olaf, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb yn y cyfarfod.	